# Cross Party Group for North Wales
# Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ddydd Gwener 15 Chwefror 2019

## Yn Bresennol

Llŷr Gruffydd AC (Cadeirydd), Darren Millar AC, Ann Jones AC a chynrychiolydd Rhun ap Iorwerth AC a Jason McLellan (Swyddfa Ann Jones AC)

Hefyd yn bresennol: Stephen Jones (Ysgrifennydd, CLlLC) a chynrychiolydd noddwr

Siaradwyr: Y Cyng. Aaron Shotton (Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Arweinydd Cyngor Sir y Fflint) ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd)

# Cyfarfod Blynyddol

Agorwyd y cyfarfod gan Llŷr Gruffydd.

## 1. Ethol Swyddogion

- Etholwyd Llŷr Gruffydd yn Gadeirydd
- Etholwyd Mark Isherwood ac Ann Jones yn is-gadeiryddion
- Etholwyd Stephen Jones yn Ysgrifennydd i weithio dan oruchwyliaeth y Cadeirydd a'r Is-gadeiryddion

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018. Nodwyd Cyfansoddiad y Grŵp a fabwysiadwyd yn ystod y cyfarfod blynyddol diwethaf.

## 3. Testunau Cyfarfodydd i Ddod

Cafwyd trafodaeth fer ar destunau cyfarfodydd i ddod. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys:-

- Trafodaeth strategol ar ddyfodol economaidd gogledd Cymru yng nghyd-destun yr oedi gyda Phrosiect Wylfa Newydd a'r risgiau posibl i ynni niwclear. Roedd diddordeb mewn edrych ar ynni'r llanw (ffrwd lanw a morlyn) a cheisio dull mwy rhagweithiol gan Ystadau'r Goron
- Adolygiad o ymrwymiadau ynni yn y rhanbarth a thrafodaeth ar ddylanwadu ar bolisi ynni Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU
- Diweddariad gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol BIPBC ar eu cynnydd a pha obaith sydd o ddod allan o'r mesurau arbennig

Roedd cyfarfodydd blaenorol wedi cynnwys: -

- Cyflwyniad gan Brif Swyddog Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Adroddiad yn ôl gan y Cyngor Busnes ar ei Fonitor Busnes arfaethedig

## 4. Cynnig Twf Gogledd Cymru

Cyflwynodd y Cyng. Shotton adroddiad i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am fargen dwf arfaethedig Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae'r ddwy lywodraeth wedi ymrwymo £120 miliwn yr un i Fargen Dwf Gogledd Cymru. Nid yw'r £240 miliwn hwn yn digoni'r cynnig am £340 miliwn a wnaethpwyd yn ystod hydref 2018.

Mae'n bosibl y bydd gostyngiad i brosiectau'r portffolio presennol (£340 miliwn) sydd wedi eu hariannu gan y Fargen Dwf. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd pellach i ariannu'r prosiectau hynny, nad yw Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU wedi cytuno arnynt, drwy ffynonellau ariannu eraill:-

- Bargeinion Sector
- Trefniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y dyfodol
- Cronfeydd arbennig Llywodraeth y DU ar gyfer arloesi ac ati
- Rhaglenni cyfalaf Llywodraeth Cymru

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi: -

- Diogelu cefnogaeth Llywodraeth y DU ar gyfer cais Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol a fydd yn uwchraddio capasiti a chyflymder cysylltiadau band eang i adeiladau cyhoeddus, gyda chyfle i wella cysylltedd busnesau ac eiddo preswyl ar gefn y seilwaith cyhoeddus
- Cyfansoddi ei hun fel cydbwyllgor ffurfiol, gan fodloni gofynion allweddol ar gyfer llywodraethu a osodwyd gan y ddwy lywodraeth fel cyllidwyr bargen dwf
- Sefydlu Grŵp Arweinwyr Busnes i ddarparu cyngor ar y Cynnig a'i bortffolio prosiectau, fel y gofynnwyd gan y llywodraethau fel rhan o'i fframwaith llywodraethu gofynnol
- Nodi awdurdod arweiniol i weithredu ar ran y cydbwyllgor (Cyngor Gwynedd)
- Dechrau'r broses o recriwtio "Prif Weithredwr" ar gyfer y Fargen Dwf, a fydd yn cael ei gefnogi gan Swyddog Rhaglen

Mae penodi Gweinidog Swyddfa Cymru newydd wedi arwain at newid y pwyslais. Mae gan Nigel Adams AS, y Gweinidog newydd, gefndir mewn amgylchedd busnes digidol. Mae o wedi herio cynigion Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn dda, gan ganolbwyntio ar safon a manylion yr achosion busnes amlinellol a fydd yn ffurfio sail i'r cytundeb Penawdau'r Telerau.

O ran y cynnydd, mae ar y Bwrdd Uchelgais Economaidd angen adolygu'r achosion busnes amlinellol i sicrhau bod y prosiectau: -

- Yn bosibl
- Yn rhoi budd economaidd ac yn hyrwyddo arloesi, twf swyddi ac yn dylanwadu ar fuddsoddiadau sector preifat (a dim trysorlys)
- Yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU
- Yn derbyn cefnogaeth a chyfranogiad y sector preifat

Pan fydd yr achosion busnes yn cyrraedd y safonau gofynnol, bydd dogfen Penawdau'r Telerau yn cael ei chytuno arni a bydd y prosiectau a nodir yn y ddogfen honno yn symud yn eu blaenau i fod yn destun achos busnes llawn. Bydd llofnodi achos busnes llawn prosiect yn cychwyn o broses o gymeradwyo benthyciadau trysorlys ar gyfer y prosiect hwnnw a bydd y prosiect wedyn yn symud yn ei flaen i'r broses gaffael ac yna'n cael ei roi ar waith.

Mae'r portffolio prosiectau wedi ei aildrefnu yn rhaglen sy'n hyrwyddo twf tri sector allweddol y mae gan y rhanbarth gryfder a mantais gystadleuol ynddo: -

- Cynhyrchu ynni carbon isel
- Gweithgynhyrchu uwch
- Busnesau tir (twristiaeth ac amaethyddiaeth)

Mae'r cynigion twf y sectorau allweddol wedi eu cefnogi gan alluogwyr ym meysydd: -

- Seilwaith digidol
- Seilwaith cludiant
- Darparu safleoedd ac eiddo (lle mae busnesau wedi cynghori bod diffyg tir ar gyfer cyflogaeth a thai)
- Sgiliau

I gloi, gofynnodd y Cyng. Shotton i'r cyfarfod drafod y ffordd orau i harneisio cefnogaeth lobio.

**Trafodaeth**

Awgrymwyd bod y Grŵp Trawsbleidiol yn gofyn am eglurder ar faterion yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru: -

- Cynigion Cynllun Economaidd ar gyfer Prif Swyddog Rhanbarthol a chynllun
- Goruchwylio gwaith Trafnidiaeth Cymru yng ngogledd Cymru (cydbwyllgor awdurdod lleol neu awdurdod cludiant ar y cyd a gynigir gan Lywodraeth Cymru)
- Rôl grŵp llywio'r Gweinidog ar gyfer cyllid ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd
- Rôl Gweinidog Gogledd Cymru a phwyllgor sefydlog

Mae Bwrdd uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn pryderu y gall mentrau polisi Llywodraeth Cymru ddyblygu neu ddrysu ei waith.

Roedd y materion a godwyd gan Aelodau'r Cynulliad yn cynnwys: -

- Lleihau nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau a hyrwyddo cymunedau iachach o ganlyniad

- Buddsoddiad sector preifat yn y Fargen Dwf – a ydym ni ar y trywydd cywir o ran lefel y buddsoddiadau gan y sector preifat?

- Cefnogi'r sector creadigol yn y dyfodol

- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy raglenni ynni clyfar, sy'n cynnwys mentrau i wella inswleiddio. Gall hyn gynnwys y sector preifat a chreu swyddi

- Bod yn ofalus wrth gynnig cymorthdaliadau i ddatblygwyr

- Alinio prosiectau gydag amcanion Llywodraeth y DU i gefnogi prosiectau gyda buddsoddiad, arloesedd a chyfraniad y sector preifat i wella allforio a pherfformiad digidol

- Ail gam o fuddsoddiad y fargen dwf sy'n gysylltiedig â rhyddhau'r prosiectau gorau yn y portffolio presennol i'w datblygu'n gyflym. Mae hyn yn awgrymu y bydd ail gam yn cael ei roi ar waith a fydd yn cynnwys rhai o'r prosiectau sydd ym mhortffolio presennol y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ogystal â phrosiectau newydd

- Mae gogledd Cymru wedi colli allan i dde Cymru ar fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cludiant

Cafwyd trafodaeth ar "sgil fargeinion" y Fargen Dwf lle mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agosach drwy gytuno ar rolau, gwella cydlynu a chanolbwyntio mwy ar anghenion rhanbarthol ym meysydd sgiliau, cludiant, datblygu safleoedd ac eiddo a darparu cymorth i fusnesau. Mae'n bosibl y bydd trefniadau partneriaeth ar y cyd yn y meysydd hyn.

**<u>Camau Gweithredu</u>**

- Rhannu'r papurau a gylchredwyd yn y cyfarfod gydag Aelodau Cynulliad

- Y Cyng. Shotton i ysgrifennu at Aelodau Cynulliad ynglŷn â'r "gofynion allweddol" awgrymedig

## 5. Unrhyw Fater Arall

Mae Mark Isherwood AC wedi ysgrifennu at y grŵp ynglŷn â phryderon Grŵp Defnyddwyr Rheilffordd Wrecsam – Bidston bod y gwaith ar y lein a'r canslo rheolaidd (yn sgil diffyg stoc a gyrwyr) yn tanseilio'r defnydd.

Cododd Darren Millar AC bryderon ynghylch tocynnau trên.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i fynegi pryderon Grŵp Defnyddwyr y Rheilffordd a'r Grŵp Trawsbleidiol ynghylch lein Wrecsam – Lerpwl yn cael ei thanseilio gan waith peirianneg a chanslo gwasanaethau yn rheolaidd.